

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangywer

15fed o Fai 2017

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), Tyly Roberts, Geraint Roberts, Dafydd Williams, Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Alan Jones Evans

- 1 Arwyddwyd Datganiad derbyn swydd a'r Côt Ymddygiad i Gynghorwyr; cwblhawyd Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr.
- 2 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2016.
- 3 Etholwyd Emyr Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2017-18.
- 4 Etholwyd Tyly Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2017-18.
- 5 Ystyriwyd cyfethol dau aelod i'r Cyngor oherwydd diffyg enwebiadau; cytunwyd i arddangos y ffurflen briodol ar yr hysbyswrdd ac i'w rhoi ar y wefan.
- 6 Enwebwyd Emyr Jones fel cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
- 7 Enwebu Dafydd Williams a Tyly Roberts i gynrychioli'r Cyngor ar Bartneriaeth Penllyn.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd y Côt Ymddygiad.
- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol.
- 11 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisiâu
 - i. Cydnabyddiaeth Ariannol
 - ii. Defnydd o'r iaith Gymraeg
 - iii. Amgylcheddol
 - iv. Cyfle Cyfartal
 - v. Polisi Rhyddid Gwybodaeth
 - vi. Polisi Pryderon a Chwynion
 - vii. Strategaeth Fuddsoddi
- 12 Cadarnhawyd Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 14 Ystyriwyd Cyfrifon y flwyddyn 2016-17 a chytunwyd i'w cyflwyno i sylw'r Archwiliwr Mewnol .
- 15 Apwyntiwyd John Roberts fel Archwilydd Mewnol ar gyfer 2017-18.
- 16 Cadarnhawyd Cofrestr Datganiad Buddiant am y flwyddyn 2016-17.
- 17 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2017-18.

- 18 **Adroddiad cloi'r Cadeirydd am y flwyddyn 2016-17:** Mynegodd Eleri Jones y bu'n bleser cael Cadeirio Cyngor Cymuned Llangywer ac i gynrychioli'r Cyngor mewn gwahanol bwyllgorau yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Dywedodd ei fod wedi bod yn anrhydedd i ddal y swydd. Diolchodd i bob un o'r Cynghorwyr am fod yn driw a diolchodd i'r Clerc am ei chefnogaeth a'i gwaith. Dymunodd yn dda iawn i'r Cadeirydd newydd, Emyr Jones.

Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd 2017-18:

5 Mehefin

Gorffennaf 3ydd

Medi 11

Tachwedd 13

Ionawr 8fed

Chwefror 26